OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 91

# Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018

**Llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu – cyrff perthnasol llai**

**8.**—(1) Yn rheoliad 15(5)(b) (llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu), yn lle "lle neu leoedd amlwg" rhodder "o leiaf un lle amlwg".

(2) Ar ôl rheoliad 15 (llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu) mewnosoder—

"**Addasiadau ar gyfer pwyllgorau cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol**

**15A.**—(1) Mae'r addasiadau a nodir yn y rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas â chyfrifon pwyllgor i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (gan gynnwys cyd-bwyllgor).

(2) Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020, mae rheoliad 15 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "15 Mehefin" wedi ei roi yn lle "30 Mehefin";

(b) mae paragraff (5) i'w ddarllen fel petai "15 Medi" wedi ei roi yn lle "30 Medi".

(3) Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae rheoliad 15 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "31 Mai" wedi ei roi yn lle "30 Mehefin";

(b) mae paragraff (5) i'w ddarllen fel petai "31 Gorffennaf" wedi ei roi yn lle "30 Medi"."